**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026. Mae hyn yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**6 Chwefror 2026**

## 1. Diben a throsolwg

1.1. Mae Gorchymyn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2026 ("y Gorchymyn Diwrnod Penodedig") yn pennu 31 Mawrth 2026 fel y dyddiad y daw'r Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026 i rym.

1.2. Gosodwyd y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026 ("y Cod Ymarfer") gerbron y Senedd ar 1 Rhagfyr 2025.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Gwneir y Gorchymyn Diwrnod Penodedig o dan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Er nad yw'r Gorchymyn Diwrnod Penodedig yn dilyn un o weithdrefnau'r Senedd, mae'n ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Senedd o dan adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

3.2. Mae adran 145 o Ddeddf 2014 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, a diwygio o bryd i'w gilydd, un neu ragor o godau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn ganllawiau o dan adran 169 o Ddeddf 2014 ac adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

3.3. Mae Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol gan adran 146(1) o Ddeddf 2014, wedi ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy ar y Cod Ymarfer drafft ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig 2026.

3.4. Yn unol ag adran 146(2) o Ddeddf 2014, gosodwyd Cod Ymarfer drafft gerbron y Senedd ar 1 Rhagfyr 2025 a daw i rym gan y Gorchymyn Diwrnod Penodedig ar 31 Mawrth 2026. Caiff y Cod Ymarfer ei ddyroddi, ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd.

3.5. Yn unol ag adran 146(3) o Ddeddf 2014, o fewn cyfnod o 40 niwrnod, ni phenderfynodd Senedd Cymru beidio â chymeradwyo'r Cod Ymarfer drafft, a dyroddwyd y Cod Ymarfer ar ffurf y drafft hwnnw.

## 4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.1. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Gorchymyn Diwrnod Penodedig hwn. Mae hyn yn unol â'r esemptiad yn adran 3.2 o god ymarfer Gweinidogion Cymru ynghylch cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.